# Ymatebion i'r ymgynghoriad ar drefniadau arolygu newydd Estyn

## 1 Cyflwyniad

Yn ystod Hydref−Rhagfyr 2019, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn i bobl am eu safbwyntiau ar drefniadau arolygu Estyn ar gyfer ysgolion a gynhelir o fis Medi 2021. Hwn oedd yr ail mewn cyfres o ymgynghoriadau am sut orau y gall arolygu gynorthwyo ysgolion a darparwyr eraill i reoli'r newidiadau niferus sy'n digwydd mewn addysg. Fe wnaeth ein hymgynghoriad cyntaf yn haf 2019 archwilio'r hyn y dylem ni ei wneud i gynorthwyo ysgolion yn ystod ein blwyddyn bontio pan fyddwn yn gohirio arolygiadau mewn ysgolion. Mae'r adroddiad hwn yn un o ddau a gynhyrchwyd ar ein hymgynghoriad diweddaraf. Cynhyrchwyd yr adroddiad arall gan Arad.

## 2 Cefndir a chyd-destun

Yn 2017, fe wnaethom gyflwyno trefniadau arolygu newydd. Tua'r un pryd, ac yng nghyd-destun diwygiadau addysg uchelgeisiol, comisiynwyd adolygiad annibynnol o arolygiadau ysgolion yng Nghymru gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad, sef 'Arolygiaeth Dysgu,'[1] ym mis Mehefin 2018. Mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellion ar sut gallem ni addasu ein gwaith er mwyn cyfrannu'n adeiladol at ddiwygio addysg. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'n hymateb i 'Arolygiaeth Dysgu', gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau arolygu.

Rhwng 2020 a 2024, rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i'n gwaith:
- Yn ystod ein blwyddyn bontio 2020−2021, rydym yn cynnig gohirio ein harolygiadau o ysgolion a gynhelir[2] ac UCDau fel y gall arolygwyr ymweld ag ysgolion i drafod a pharatoi ar gyfer newidiadau'r cwricwlwm.
- Ym mis Medi 2021, rydym yn cynnig diwygio ein trefniadau arolygu ar gyfer ysgolion, fel eu bod yn gydnaws â'r newidiadau i addysg yng Nghymru.
- Cyn 2024, byddwn yn peilota arolygiadau sy'n canolbwyntio ar brosesau hunanwella ysgolion.

Ym mhob cam, byddwn yn gweithio gyda chi i ffurfio ein cynlluniau.

Roedd yr ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at ddysgwyr, gweithwyr addysg proffesiynol, rhieni / gofalwyr ac unrhyw un â diddordeb mewn addysg, a'n trefniadau arolygu yn y dyfodol.

Bydd y trefniadau newydd hyn yn berthnasol i'r sectorau canlynol:
- ysgolion cynradd, gan gynnwys ysgolion meithrin
- ysgolion uwchradd

[1] Donaldson, G. 2018. *Arolygiaeth Dysgu: Adolygiad annibynnol o Estyn.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/A%20Learning%20Inspectorate%20-%20cy%20-%20June%202018.pdf
[2] Yng ngweddill yr adroddiad hwn, defnyddir y term 'ysgolion' i gyfeirio at ysgolion a gynhelir.

- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol.

Ni chaiff lleoliadau meithrin nas cynhelir, addysg gychwynnol i athrawon, Cymraeg i Oedolion ac awdurdodau lleol, eu cynnwys yng nghwmpas yr ymgynghoriad hwn, ond gallai'r adborth hefyd lywio trefniadau arolygu yn y dyfodol yn y sectorau hyn. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar gyfer colegau Addysg Bellach, darparwyr Dysgu Oedolion a dysgu yn y gwaith yn ddiweddarach yn 2020. Byddwn yn peilota unrhyw newidiadau potensial gydag ysgolion annibynnol yn ddiweddarach.

## 3 Methodoleg

Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur a oedd ar gael i'w lenwi naill ai ar-lein neu oddi ar-lein (roedd modd llenwi a dychwelyd dogfen Word trwy'r e-bost neu drwy'r post). Roedd fersiwn o'r ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc hefyd, a gynlluniwyd gan gwmni allanol i fod yn hygyrch i ymatebwyr iau. Fe wnaethom lansio'r arolwg ar 4 Hydref 2019, a'i gau ar 2 Rhagfyr 2019.


Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro yn unol â'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori:

- Fframwaith arolygu cyffredin Estyn
- Graddau crynodol
- Gweithgarwch dilynol mewn ysgolion a gynhelir
- Dosbarthiadau chweched mewn adroddiadau arolygu
- Cyfnod rhybudd ar gyfer arolygiad
- Sylwadau cyffredinol am ein trefniadau arolygu
- Sut bydd y cynigion yn effeithio ar y Gymraeg.

Caiff ymatebion eu dadansoddi yn gyffredinol ac yn ôl y math o ymatebwr, lle mae amrywiad mewn negeseuon gan wahanol grwpiau.

## 4 Proffil ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Cawsom 815 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Defnyddiodd 15% o'r ymatebwyr hyn fersiwn Gymraeg yr arolwg.





## 5 Canlyniadau

### 5.1 Fframwaith arolygu


Mae fframwaith arolygu presennol Estyn yn cynnwys pum maes arolygu:

- Maes arolygu 1: Safonau
- Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu
- Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu
- Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad
- Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth.

Rhoesom ddisgrifiad byr o bob maes a gofyn i bobl pa mor bwysig yw ein bod yn parhau i arolygu pob un o'r meysydd hyn, yn eu barn nhw.




Gellir gweld dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl grŵp ymatebwyr a maes arolygu isod:




Gofynnom ni hefyd a oedd gan ymatebwyr awgrymiadau ynghylch meysydd y dylem eu blaenoriaethu'n fwy yn ystod arolygiad, neu feysydd y dylem roi llai o bwyslais arnynt. Caiff y sylwadau hyn eu dadansoddi yn yr adran ganlynol.

### *5.1.1 Meysydd y dylem eu blaenoriaethu'n fwy*

Un o'r prif negeseuon ar draws yr holl ymatebwyr oedd bod angen blaenoriaethu lles ac iechyd meddwl. Pwysleisiodd gweithwyr addysg proffesiynol, aelodau'r cyhoedd ac ymatebwyr eraill fod angen ystyried lles a baich gwaith staff. Nododd gweithwyr addysg proffesiynol, rhieni/gofalwyr ac ymatebwyr eraill fod angen blaenoriaethu

dysgwyr ag AAA / ADY (anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol) ac / neu ACEY (anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol). Neges allweddol gan weithwyr addysg proffesiynol oedd y dylem barhau i flaenoriaethu pob un o'r pum maes arolygu presennol. Hefyd, dylem roi mwy o bwyslais ar gyd-destun economaidd gymdeithasol ysgol, a theithiau unigol dysgwyr. Roedd datblygiad proffesiynol a rheoli adnoddau a chyllideb yn awgrymiadau eraill ynghylch meysydd y dylem eu blaenoriaethu. Ychwanegodd gweithwyr addysg proffesiynol fod angen i ni roi mwy o bwyslais ar lais y dysgwr, dysgwyr sy'n agored i niwed, hunanwerthuso a chymorth gan awdurdodau lleol. Ychwanegon nhw y dylem flaenoriaethu byd gwaith, medrau ac ethos ysgol hefyd. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys iechyd corfforol dysgwyr, y cyfnod pontio rhwng cyfnodau allweddol, cydweithio, staffio, presenoldeb, a gwaharddiadau a symudiadau rheoledig.

Y prif negeseuon gan rieni / gofalwyr oedd y dylem flaenoriaethu hygyrchedd i ddysgwyr ag anableddau a phwysleisio cynnydd dysgwyr. Hefyd, dylem roi mwy o bwyslais ar agweddau dysgwyr, arweinyddiaeth a llywodraethu ysgolion. Y themâu gan ddysgwyr oedd y dylem flaenoriaethu ymddygiad a diogelwch yn yr ysgol. Cafwyd negeseuon mynych gan ymatebwyr eraill bod angen rhoi mwy o bwyslais ar ddysgwyr sy'n agored i niwed, llais y dysgwr, a hawliau plant.

### *5.1.2 Meysydd y dylem roi llai o bwyslais arnynt*

Neges allweddol gan weithwyr addysg proffesiynol a rhieni / gofalwyr oedd y gellid uno'r meysydd arolygu 'lles ac agweddau at ddysgu' a 'gofal, cymorth ac arweiniad' o ganlyniad i orgyffwrdd. Teimlai gweithwyr addysg proffesiynol ac ymatebwyr eraill y dylem roi llai o bwyslais ar ddata a deilliannau perfformiad, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

Y prif negeseuon gan weithwyr addysg proffesiynol oedd bod angen rhoi llai o bwyslais ar gymharu ysgolion, asesu crynodol, arsylwadau gwersi a phresenoldeb. Nododd rhieni / gofalwyr y dylem roi llai o bwyslais ar fyw yn iach, gan nodi nad cyfrifoldebau ysgolion yw hyn. Cafwyd negeseuon cyson gan yr ymatebwyr hyn y dylem roi llai o bwyslais ar iechyd corfforol, arweinyddiaeth a'r amgylchedd dysgu.

## 5.2 Graddau crynodol


Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio'r graddau crynodol canlynol yn ystod arolygiadau i ddisgrifio agweddau ar waith darparwyr.

| **Graddau crynodol** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |

| Anfoddhaol | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |
|---|---|


Rydym yn bwriadu rhoi'r gorau i ddefnyddio'r pedair barn hyn ar gyfer pob maes arolygu o fis Medi 2021. Yn hytrach, byddem yn ysgrifennu ein gwerthusiadau a'n barnau o fewn y naratif. Byddem yn parhau i ddarparu crynodeb yn nodi cryfderau'r ysgol / UCD a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Hefyd, byddem yn parhau i'w gwneud yn glir mewn adroddiad arolygu pan fydd angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar ysgol.

Fe wnaethom ofyn i ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno â'n cynnig i roi'r gorau i ddefnyddio graddau crynodol ar gyfer pob maes arolygu. Roedd 80% o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' â'n cynnig i roi'r gorau i ddefnyddio graddau crynodol.




n= 766

Gellir dadansoddi'r rhai a gytunodd fel a ganlyn:




Gofynnom ni i ymatebwyr roi rhesymau dros eu dewisiadau, os oeddent yn dymuno. Roedd sylwadau gan weithwyr addysg proffesiynol o blaid dileu graddau crynodol, ar y cyfan. Roedd sylwadau gan rieni / gofalwyr yn gymysg, a sylwadau gan ddysgwyr hefyd yn gymysg, ond gyda mwy o blaid cael gwared ar raddau crynodol. Roedd y rhan fwyaf o sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd yn erbyn y cynnig. Caiff y sylwadau hyn eu dadansoddi yn yr adran ganlynol.

### *5.2.1 O blaid cael gwared ar raddau crynodol*

Un o'r prif negeseuon gan weithwyr addysg proffesiynol, rhieni / gofalwyr, dysgwyr ac ymatebwyr eraill a oedd o blaid dileu graddau crynodol oedd bod y graddau, ar hyn o bryd, yn aml yn cael eu hystyried yn raddau ar wahân, heb gyd-destun. Byddai

dileu'r graddau yn annog ysgolion i ddarllen adroddiad yn ei gyfanrwydd. Roedd gweithwyr addysg proffesiynol, dysgwyr ac ymatebwyr eraill o'r farn fod graddau crynodol yn rhy syml. Gall y graddio unigol amharu ar negeseuon ac amrywiadau eraill mewn adroddiad, a phwysleisiodd yr ymatebwyr hyn werth cyfyngedig un gair yn crynhoi natur gymhleth ysgol. Gallai dileu'r graddau annog pobl i edrych yn fwy cyfannol ar ysgolion. Prif neges arall gan weithwyr addysg proffesiynol ac ymatebwyr eraill oedd y byddai dileu graddau crynodol yn newid diwylliannol cadarnhaol, gan helpu i ddileu atebolrwydd â llawer yn y fantol, a symud tuag at ffordd fwy cefnogol o arolygu. Byddai hyn yn lleihau pwysau ar staff hefyd.

Roedd gweithwyr addysg proffesiynol o'r farn y byddai dileu graddau crynodol yn helpu lleihau cystadleuaeth rhwng ysgolion, ac yn annog cydweithredu a chydweithio. Fe wnaethant nodi bod barn yn parhau am sawl blwyddyn, a gallai pethau newid mewn ysgol yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad, gall graddau o'r fath fod yn gamarweiniol i rieni. Fe wnaethant ychwanegu y gellir defnyddio graddau mewn ffordd niweidiol, neu at y diben anghywir, ac mai nhw yw'r unig bethau y mae pobl yn eu cofio. Felly, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn y byddai naratif a meysydd i'w gwella yn fwy buddiol wrth helpu ysgolion i wella.

Thema arall gan weithwyr addysg proffesiynol oedd yr amgyffrediad y gellir addasu cynnwys adroddiad i weddu i farn. Roeddent o'r farn nad yw graddau yn helpu ysgol, gallant gael effaith negyddol ar forâl, lles ac iechyd meddwl staff, a gall y graddau fod yn ffocws ar gyfer yr ysgol, yn hytrach na gwelliant. Crybwyllodd yr ymatebwyr hyn y mater posibl y bydd ysgolion yn mynd yn hunanfodlon yn dilyn gradd 'rhagorol'. Roeddent hefyd yn teimlo bod y sbectrwm yn rhy eang o fewn graddau fel 'da', ac fe wnaethant nodi cyfyngiadau term fel 'digonol', y gall fod ystyron negyddol iddo. Negeseuon mynych gan yr ymatebwyr hyn oedd y byddai dileu graddau crynodol yn decach ar ysgolion mewn ardaloedd sydd dan anfantais economaidd gymdeithasol uwch, a bod cyflawni graddau 'rhagorol' yn gallu teimlo fel petai tu hwnt i'w cyrraedd. Fodd bynnag, nododd yr ymatebwyr hyn y byddai angen i fodel amgen fod yn hygyrch a dealladwy i rieni.

Roedd rhieni / gofalwyr sydd o blaid dileu graddau crynodol o'r farn fod y graddau yn ddiystyr ac nad ydynt yn darparu gwybodaeth berthnasol. Nododd dysgwyr y byddai dileu graddau yn helpu gwelliant, ac fe wnaethant awgrymu graddfa rifau fel dewis arall posibl. Y prif negeseuon gan ymatebwyr eraill oedd y gall y cyfryngau gamddehongli graddau, a bod ysgolion / rhieni yn pryderu mwy ynghylch barn na'r negeseuon mewn adroddiad.

### *5.2.2 Yn erbyn dileu graddau crynodol*


Y prif negeseuon gan weithwyr addysg proffesiynol, rhieni / gofalwyr, aelodau o'r cyhoedd ac ymatebwyr eraill a oedd yn erbyn dileu graddau crynodol, oedd fod y graddau yn ffordd gyflym, hygyrch a buddiol i rieni a'r cyhoedd ehangach wneud penderfyniadau am ysgolion a safonau. Fe wnaethant ychwanegu eu bod yn ffordd hawdd o gymharu ysgolion 'ar gipolwg.' Nododd gweithwyr addysg proffesiynol, rhieni ac aelodau o'r cyhoedd y gellir camddehongli naratif, yn dibynnu ar y darllenydd. Fe wnaethant bwysleisio pwysigrwydd eglurder a thryloywder ynglŷn â sut mae ysgol yn perfformio, a nodi bod graddau crynodol yn helpu cyflawni hyn.

Nododd gweithwyr addysg proffesiynol a dysgwyr fod angen i ysgolion wybod beth mae angen iddynt ei wella, ac mae barnau crynodol yn helpu â hyn.

Awgrymodd gweithwyr addysg proffesiynol y dylid cael pumed gradd, fel 'da iawn'. Roeddent yn teimlo na fyddai cael gwared ar raddau yn gwneud gwahaniaeth gan y byddai'r farn yn cael ei hawgrymu o iaith yr adroddiad. Y negeseuon cyffredin gan ddysgwyr oedd y gall graddau crynodol gymell ysgolion / athrawon, tra bod pryderon wedi cael eu mynegi gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch llai o atebolrwydd pe baent yn cael eu dileu. Nododd rhieni fod graddau yn ffordd o asesu gwelliant ysgol a sicrhau nad yw ysgolion yn canolbwyntio ar rannau cadarnhaol adroddiad yn unig.


## 5.3 Adolygu gan Estyn

Yn ystod arolygiad, mae arolygwyr yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar ysgol. Mae 'gwelliant sylweddol' a 'mesurau arbennig' yn lefelau statudol o weithgarwch dilynol, a bennwyd mewn deddfwriaeth. Gofynnom ni a ddylem gael gwared ar Adolygu gan Estyn. Mae hon yn lefel anstatudol o weithgarwch dilynol lle mae arolygwyr yn gwirio cynnydd ysgolion trwy adolygiad wrth y ddesg, a gallai ymweld â darparwr rhyw flwyddyn ar ôl yr arolygiad. Ar hyn o bryd, mae Adolygu gan Estyn yn digwydd ar gyfer darparwyr lle mae cryfderau mewn agweddau ar waith yr ysgol, ond mae arolygwyr yn nodi meysydd pwysig i'w gwella.




Roedd 49% o ymatebwyr yn cytuno y dylem gael gwared ar Adolygu gan Estyn, roedd 32% yn anghytuno, ac 19% ddim yn siŵr, neu nid oedd ganddynt farn.

Gellir dadansoddi'r rhai a oedd yn cytuno fel a ganlyn:




Gwahoddwyd ymatebwyr i roi rhagor o sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â'r cynnig hwn. Roedd sylwadau gan weithwyr addysg proffesiynol, rhieni / gofalwyr, aelodau

o’r cyhoedd ac ymatebwyr eraill yn gymysg. Roedd mwyafrif y sylwadau gan ddysgwyr yn erbyn cael gwared ar Adolygu gan Estyn. Mae’r adran ganlynol yn dadansoddi’r sylwadau hyn.

### *5.3.1 O blaid cael gwared ar Adolygu gan Estyn*

Y prif negeseuon gan weithwyr addysg proffesiynol, aelodau o’r cyhoedd ac ymatebwyr eraill oedd y byddai cael gwared ar Adolygu gan Estyn yn rhyddhau mwy o amser ac adnoddau i’w neilltuo i ysgolion mewn categorïau gweithgarwch dilynol statudol. Y themâu gan weithwyr addysg proffesiynol a dysgwyr oedd bod llawer o bwysau ar ysgolion yn barod, a gall Adolygu gan Estyn ychwanegu hyd yn oed mwy o bwysau. Awgrymodd gweithwyr addysg proffesiynol ac ymatebwyr eraill mai’r consortia rhanbarthol ddylai gynnal adolygiad o’r fath, a fyddai’n lleihau achosion o ddyblygu craffu a gaiff ysgolion sy’n tanberfformio. Fodd bynnag, ychwanegodd yr ymatebwyr hyn y byddai angen i’r consortia rhanbarthol fod â’r capasiti i wneud hyn. Y prif negeseuon gan weithwyr addysg proffesiynol a rhieni / gofalwyr oedd y dylai ysgolion yrru eu gwelliant eu hunain, ar yr amod fod y tîm arweinyddiaeth yn ddigon cryf i sicrhau hyn.

Pwysleisiodd gweithwyr addysg proffesiynol gyfyngiadau strategaeth wrth y ddesg, a nodi bod gwaith o’r fath yn cael ei ddyblygu gan y consortia ar hyn o bryd. Negeseuon cyffredin gan ymatebwyr eraill oedd fod Adolygu gan Estyn yn ddiangen os yw’r naratifau mewn adroddiad arolygu yn esbonio’r hyn sydd ei angen er mwyn i ysgol wella.

### *5.3.2 Yn erbyn cael gwared ar Adolygu gan Estyn*


Y prif negeseuon gan weithwyr addysg proffesiynol oedd bod Adolygu gan Estyn wedi helpu ysgolion i wella a gallent barhau i wneud hynny. Fe wnaethant ddisgrifio Adolygu gan Estyn fel cymhelliant a sbardun dros newid, gan roi neges glir fod angen newid. Y themâu eraill gan yr ymatebwyr hyn oedd os ceir gwared ar Adolygu gan Estyn, y gallai safonau mewn rhai ysgolion ddirywio ymhellach. Fe wnaethant ychwanegu na fyddai mecanwaith cymorth hebddo, ar gyfer ysgolion sy’n cael trafferth, ond nad ydynt mewn categori statudol. Neges gyson gan yr ymatebwyr hyn oedd bod angen mecanwaith i gynorthwyo pob ysgol, fel Adolygu gan Estyn, i sicrhau atebolrwydd. Fe wnaethant ychwanegu bod yr adolygu yn gymorth da ar gyfer y tîm arweinyddiaeth, ar hyn o bryd. Cynigiodd rhai gweithwyr addysg proffesiynol y dylai’r raddfa amser ar gyfer monitro fod yn fyrrach, y dylid cynnal ymweliadau yn fwy rheolaidd ac y dylem weithio gyda’r consortia rhanbarthol. Negeseuon eraill gan yr ymatebwyr hyn oedd y gallai Adolygu gan Estyn fod yn gyffyrddiad ysgafnach.

Negeseuon cyson gan rieni / gofalwyr oedd bod Adolygu gan Estyn yn fuddiol o ran cymell ysgolion sy’n tanberfformio i wella. Fe wnaethant ychwanegu y gallai ysgolion ddirywio ymhellach heb y categori Adolygu gan Estyn. Y prif negeseuon gan ddysgwyr oedd bod angen monitro ysgolion i weld a yw gwelliannau a newidiadau yn gweithio, ac na ddylem ni adael ysgolion sy’n perfformio’n wael heb gymorth. Hefyd, fe wnaethant nodi y dylem weithio’n agosach gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol fel rhan o Adolygu gan Estyn. Nododd aelodau o’r cyhoedd fod

Adolygu gan Estyn yn angenrheidiol i gynnal safonau, a mynegwyd pryderon y gallai safonau ysgol ddirywio, pe bai'n cael ei ddileu.  Y negeseuon gan ymatebwyr eraill oedd ei bod yn bwysig cynnal safon gyson o weithgarwch dilynol, gan ychwanegu mai Estyn yw'r unig sefydliad sydd â'r wybodaeth angenrheidiol i wneud hynny.  Fodd bynnag, fe wnaethant ychwanegu y gallem ni weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol fel rhan o'r broses.

## 5.4 Adran ar ddosbarthiadau chweched mewn adroddiadau arolygu


Ar hyn o bryd, rydym yn ysgrifennu am y chweched dosbarth ar draws pob maes arolygu, ond ni chaiff y wybodaeth hon ei choladu mewn crynodeb cyffredinol o'r chweched dosbarth.  Hoffem adrodd ar safonau chweched dosbarth a darpariaeth ar wahân i naratif y prif adroddiad.  Gofynnom i ymatebwyr a ddylem ni gael adran ar wahân ar ddosbarthiadau chweched mewn adroddiadau arolygu ysgolion uwchradd.




n= 746

Roedd 63% o ymatebwyr o'r farn y dylem gael adran ar wahân mewn adroddiadau arolygu ysgolion uwchradd i gofnodi safonau a darpariaeth yn y chweched dosbarth.  Roedd 10% yn anghytuno, a doedd 27% ddim yn siŵr, neu nid oedd ganddynt farn.

Gellir dadansoddi'r rhai a oedd yn cytuno fel a ganlyn:




Gofynnom ni i ymatebwyr am unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach am y cynnig.  Roedd yr holl sylwadau, neu'r mwyafrif ohonynt, ar draws mathau o ymatebwyr, o blaid cael adran ar wahân ar ddosbarthiadau chweched mewn adroddiadau arolygu.  Mae'r sylwadau hyn wedi eu dadansoddi yn yr adran ganlynol.

### 5.4.1 O blaid cael adran ar wahân ar adroddiadau chweched dosbarth

Neges allweddol gan weithwyr addysg proffesiynol, rhieni / gofalwyr, dysgwyr ac ymatebwyr eraill oedd o blaid cael adran ar wahân ar gyfer y chweched dosbarth mewn adroddiadau arolygu, oedd fod natur dosbarthiadau chweched yn wahanol i weddill yr ysgol. Fe wnaethant gyfeirio at wahaniaethau o ran natur a chyllid, yn enwedig yng nghyd-destun corff addysg ôl-orfodol newydd. Fe wnaethant ychwanegu y gallai adran ar wahân fod yn fuddiol o ran amlygu unrhyw faterion penodol mewn chweched dosbarth. Un o'r prif negeseuon eraill gan yr ymatebwyr hyn oedd y byddai adran ar wahân ar ddosbarthiadau chweched yn fuddiol ar gyfer rhieni a dysgwyr sy'n dewis darpariaeth ôl-16, gan alluogi iddynt gymharu darparwyr. Pwysleisiodd gweithwyr addysg proffesiynol a dysgwyr bwysigrwydd y chweched dosbarth yn addysg dysgwyr, ac fe wnaethant nodi y gallai adran ar wahân mewn adroddiad helpu amlygu ei berfformiad, gan gynyddu atebolrwydd. Ychwanegodd yr ymatebwyr hyn y byddai hefyd yn fuddiol i ysgolion ac awdurdodau lleol wrth ffurfio cynlluniau gwella ysgolion, ac y byddai'n hynod bwysig yng nghyd-destun ysgolion sy'n colli dosbarthiadau chweched.


Neges fynych gan rieni / gofalwyr oedd y gallai adran ar wahân ar ddosbarthiadau chweched helpu egluro problemau yn ymwneud â thynnu disgyblion oddi ar gofrestrau ysgol a rheoli adnoddau. Roedd dysgwyr o'r farn y byddai cael adran ar wahân ar ddosbarthiadau chweched mewn adroddiadau arolygu yn golygu bod y wybodaeth hon ar gael yn gliriach. Y prif negeseuon gan ymatebwyr eraill oedd bod gan ddysgwyr yn y chweched dosbarth hawliau gwahanol, ac y byddai adran ar wahân mewn adroddiad arolygu yn cofnodi hyn yn well.

### 5.4.2 Yn erbyn cael adran ar wahân ar adroddiadau chweched dosbarth

Roedd rhai gweithwyr addysg proffesiynol yn dadlau yn erbyn cael adran ar wahân ar gyfer dosbarthiadau chweched mewn adroddiadau arolygu. Fe wnaethant nodi bod dosbarthiadau chweched yn rhan annatod o ysgol, ac y dylent felly gael eu cynnwys trwy gydol adroddiad. Fe wnaethant ychwanegu y gallai cael adran ar wahân fod yn broblemus i ysgolion heb ddarpariaeth ôl-16. Y negeseuon eraill gan yr ymatebwyr hyn oedd y gallai pobl gymharu adroddiadau chweched dosbarth ag adroddiadau colegau AB, heb ystyried y gwahaniaethau mewn cyllid a darpariaeth.


## 5.5 Cyfnod rhybudd

Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi 15 diwrnod gwaith (tair wythnos) o rybudd i ysgolion am arolygiad. Fe ofynnom ni i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'n cynnig i leihau'r cyfnod rhybudd i 10 diwrnod gwaith o fis Medi 2021.



Roedd 61% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig i leihau'r cyfnod rhybudd i 10 diwrnod gwaith. Roedd 31% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ac 8% ddim yn siŵr.

Gellir dadansoddi'r rhai a oedd yn cytuno fel a ganlyn:




Hefyd, rhoesom gyfle i ymatebwyr ychwanegu sylwadau ynglŷn â'r cwestiwn hwn. Roedd sylwadau gan weithwyr addysg proffesiynol yn gymysg, ond yn negyddol, ar y cyfan, ac roedd sylwadau gan rieni / gofalwyr ac aelodau o'r cyhoedd hefyd yn negyddol, ar y cyfan. Roedd sylwadau arweinwyr yn gymysg ond ychydig yn fwy cadarnhaol, ac roedd y sylwadau gan ymatebwyr eraill yn gadarnhaol, ar y cyfan. Caiff y sylwadau hyn eu dadansoddi yn yr adran ganlynol.

### *5.5.1 O blaid lleihau'r cyfnod rhybudd*

O'r ymatebwyr hynny oedd o blaid lleihau'r cyfnod rhybudd i 10 diwrnod, y prif negeseuon gan weithwyr addysg proffesiynol, rhieni / gofalwyr a dysgwyr oedd y byddai lleihau'r cyfnod rhybudd yn rhoi darlun mwy cywir o ysgol, a byddai'n lleihau arfer ysgolion o 'gynnal sioe' ar gyfer Estyn. Nododd gweithwyr addysg proffesiynol, aelodau o'r cyhoedd ac ymatebwyr eraill y byddai lleihau'r cyfnod rhybudd yn caniatáu digon o amser o hyd i ysgolion baratoi ar gyfer arolygiad, a chwblhau'r dogfennau perthnasol. Neges allweddol gan weithwyr addysg proffesiynol ac ymatebwyr eraill oedd y gallai lleihau'r cyfnod rhybudd hefyd atal ysgolion rhag gwneud gwaith ychwanegol i baratoi ar gyfer arolygiad, a fyddai'n lleihau baich gwaith staff, a straen ymhlith y staff.

Un o'r prif negeseuon gan weithwyr addysg proffesiynol oedd mai'r byrraf yw'r cyfnod rhybudd, yna'r lleiaf o straen ac aflonyddwch y byddai arolygiad yn eu hachosi i ysgolion. Fe wnaethant ychwanegu y byddai lleihau'r cyfnod rhybudd yn golygu ei fod yn cyd-fynd ag arolygiadau yn y sector nas cynhelir, sy'n cael 10 diwrnod o rybudd ar hyn o bryd.

### *5.5.2 Yn erbyn lleihau'r cyfnod rhybudd*

O'r ymatebwyr hynny oedd yn erbyn lleihau'r cyfnod rhybudd, un o'r prif negeseuon gan weithwyr addysg proffesiynol, rhieni / gofalwyr, dysgwyr ac ymatebwyr eraill oedd y gallai hyn achosi mwy o straen i ysgolion, cael effaith negyddol ar les staff, a chynyddu baich gwaith staff. Fe wnaethant nodi na fyddai 10 diwrnod yn ddigon o amser i baratoi ar gyfer arolygiad, gan gynnwys aildrefnu ymrwymiadau presennol, a chaniatáu ar gyfer trefniadau wrth gefn a salwch. Fe wnaethant ychwanegu y gallai rhai penaethiaid hefyd ddefnyddio cyfnod rhybudd byrrach fel esgus i gadw staff ar eu gwyliadwriaeth. Dadl rhai gweithwyr addysg proffesiynol oedd y byddai'r llwyddiant yn sgil lleihau'r cyfnod rhybudd yn dibynnu ar ein disgwyliadau a pha waith papur fydd ei angen, er enghraifft nifer ac amseriad holiaduron cyn-arolygiad. Neges gyffredin gan ymatebwyr eraill oedd na fyddai 10 diwrnod yn ddigon hir i ymgysylltu â rhieni a disgyblion.

Fodd bynnag, cafwyd neges gyferbyniol gan weithwyr addysg proffesiynol, rhieni / gofalwyr a dysgwyr eraill, sef y dylai'r cyfnod rhybudd fod yn fyrrach, gydag awgrymiadau yn cynnwys 5 diwrnod, a model tebyg i un Ofsted, neu ddim rhybudd o gwbl.

## 5.6 Sylwadau ychwanegol ar drefniadau arolygu

Fe wnaethom ofyn i ymatebwyr a oedd ganddynt adborth ar unrhyw agwedd arall ar drefniadau arolygu Estyn. Y themâu gan weithwyr addysg proffesiynol a dysgwyr oedd fod rhaid i ni sicrhau ein bod ni bob amser yn ystyried ysgolion yn eu cyd-destun wrth arolygu. Y themâu gan weithwyr addysg proffesiynol, dysgwyr, rhieni / gofalwyr ac aelodau o'r cyhoedd oedd fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i lais y dysgwr, a mwy o ryngweithio â dysgwyr, gan gynnwys y cyngor ysgol. Nododd gweithwyr addysg proffesiynol a rhieni / gofalwyr fod angen ymagwedd fwy cefnogol at arolygu, a rhannu arfer effeithiol.

Neges allweddol gan weithwyr addysg proffesiynol oedd fod angen sicrhau cysondeb ymhlith arolygwyr a thimau arolygu, gan awgrymu y gallai cael yr un arolygydd arweiniol yn arolygu clwstwr o ysgolion helpu â hyn. Fe wnaethant bwysleisio bod angen ymgorffori digon o amser yn ystod arolygiad i gyfarfod â staff, gan gynnwys staff cymorth, a bod angen arolygiadau mwy rheolaidd, fyddai o bosibl yn para am gyfnod byrrach. Fe wnaethant ychwanegu na ddylem ni ddyblygu rôl y consortia rhanbarthol, ac awgrymodd rhai ohonynt y dylid ymweld ag ysgolion gyda'r consortia rhanbarthol. Y negeseuon cyffredin gan yr ymatebwyr hyn oedd y dylem ni barhau i rannu arfer effeithiol mewn ffordd sy'n dathlu, a llunio canllawiau ar gyfer disgwyliadau cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad. Awgrymodd rhai ohonynt hefyd fod angen fframwaith arolygu gwahanol ar gyfer ysgolion llai, a chyhoeddi enwau arolygwyr mewn adroddiadau arolygu i gynyddu atebolrwydd.

Awgrymodd rhieni / gofalwyr y dylid cael fframwaith gwahanol ar gyfer ysgolion gwledig a bod angen panel rhieni i geisio safbwyntiau rhanddeiliaid ar y ddarpariaeth. Y themâu gan ddysgwyr oedd y dylem arsylwi amrywiaeth o bynciau yn ystod arolygiad a dylem geisio lleihau gwaith papur hefyd. Y negeseuon mynych gan yr ymatebwyr hyn oedd y dylem edrych ar ysgolion yn fwy cyfannol, a dylem

ystyried CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a hawliau plant.

### 5.7 Effeithiau ar y Gymraeg

Fe wnaethom ofyn i ymatebwyr a oeddent yn credu y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, a sut gellid cynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

Y brif neges ymhlith ymatebwyr oedd na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Nododd gweithwyr addysg proffesiynol na fyddai unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg, ar yr amod fod digon o AEM sy'n siarad Cymraeg i arolygu ysgolion yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac fe wnaethant amlygu'r goblygiadau ar gyfer adnoddau a hyfforddiant. Fe wnaethant ychwanegu y dylem ni ystyried cyd-destun ieithyddol ardal pob ysgol, yn enwedig ysgolion sy'n agos at y ffin, gan gofio bod llai o staff sy'n siarad Cymraeg neu ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg mewn rhai ysgolion. Nododd rhai gweithwyr addysg proffesiynol y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, helpu gwella ansawdd y Gymraeg mewn ysgolion, a'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Thema gan ddysgwyr oedd y gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gan annog pobl i siarad Cymraeg, a bod arolygiadau yn hyrwyddo dwyieithrwydd.

## 6 Y camau nesaf

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn helpu llywio ein trefniadau arolygu o 2021, y byddwn yn eu peilota o haf 2020. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad arall ar drefniadau arolygu ar gyfer colegau Addysg Bellach, darparwyr Dysgu Oedolion a dysgu yn y gwaith yn ddiweddarach yn 2020.